**Cofnodion Cyfarfod Blynyddol Cyngor Tref Dinbych, Nos Wener Mai ~~3ydd 2013~~ 2il 2014 yn Neuadd y Dref, Dinbych am 7 o'r gloch.**

**Presennol:** Cynghorwyr Gaynor Morgan Rees, Rob Parkes, Raymond Bartley, Medwyn Williams, Geraint Williams, Colin Hughes, Colin L Hughes, Brian Davies, Margaret Bowe, Rachael Tate, Roy Tickle, Shereen Lunt, Gaynor Wood a Medwyn Jones (Clerc y Dref).

**Apologies:** Cyng Philip Stevens a Mark Young**.** Cofnodwyd nifer o ymddiheuriadau oddi wrth westeion eraill a wahoddwyd.

1 **Gweddïau:** Agorwyd y cyfarfod trwy weddi gan Gaplan y Maer, y Parchedig Wayne Roberts.

2. **Adroddiad Blynyddol y Maer:** Cyflwynodd y Maer, y Cyng Gaynor Morgan Rees, adolygiad o'r flwyddyn ddinesig 2013 / 2014 gan gyfeirio at uchafbwyntiau'r prif ddigwyddiadau oedd wedi cymryd lle.

3. **Ethol Maer:** Cynigodd y Cyng Margaret Bowe, eiliwyd gan y Cyng Colin Hughes, a phenderfynwyd fod y Cyng Rob Parkes yn cael ei hethol yn Faer am y flwyddyn 2014 / 2015.
Darllenodd ac arwyddodd y Cyng Rob Parkes y Datganiad Statudol yn Derbyn y Swydd ym mhresenoldeb y Cofiadur Anrhydeddus, y Cynigydd a'r Eilydd.
Cyflwynodd y Cyng Gaynor Morgan Rees Cadwyn y Swydd i'r Cyng ~~Gaynor~~ Rob Parkes.
Cyflwynodd y Cyn Faeres, y Cyng Gwyneth Kensler, Cadwyn Swydd Maeres i Mrs Julia Parkes

4. **Cyflwyniad:** Cyflwynodd y Maer, Blac Dinesig a Bathodyn Cyn Faer i'r Cyng Gaynor Morgan Rees i gofio am ei blwyddyn yn y swydd. Cyflwynodd y Maer, Fathodyn Dinesig i'r Cyng Gwyneth Kensler i gofio am ei blwyddyn yn y swydd.

5. **Pleidlais o Ddiolch:** Cynigodd y Cyng Margaret Bowe bleidlais o ddiolch i'r Cyng Gaynor Morgan Rees am y modd yr oedd wedi cyflawni ei ddyletswyddau yn ystod y flwyddyn 2013 / 2014

6. **Adroddiad y Maer:** Diolchodd y Maer newydd i'w Gynigydd a'i Eilydd ac yna anerchodd y cyfarfod.

7. **Ethol Dirprwy Faer:** Cynigodd y Cyng Colin Hughes, eiliwyd gan y Cyng Roy Tickle a phenderfynwyd fod y Cyng Raymond Bartley yn cael ei ethol yn Ddirprwy Faer am y flwyddyn 2014 / 2015.
Darllenodd ac arwyddodd y Cyng Raymond Bartley y Datganiad yn Derbyn Swydd ym mhresenoldeb y Cofiadur Anrhydeddus, y Cynigydd a'r Eilydd.
Cyflwynodd y Maer, Cadwyn y Swydd i'r Cyng Raymond Bartley.
Cyflwynodd y Maer, Cadwyn Ddirprwy Faeres i Mrs Dorothy Bartley.

8. **Ethol Cadeirydd Pwyllgor Cynllunio:** Cynigodd y Cyng Colin L Hughes, eiliwyd gan y Cyng Medwyn Williams a phenderfynwyd fod y Cyng Margaret Bowe yn cael ei ethol yn Gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio am y flwyddyn 2014 / 2015.

9. **Adroddiad Presenoldeb Cynghorwyr am y flwyddyn 2013 / 2014:** Mabwysiadwyd yr adroddiad presenoldeb.

10. **Penodi Caplan y Maer:** Penododd y Maer y Parchedig Jonathan Smith yn Gaplan am y flwyddyn 2014 / 2015.

11. **Gwasanaeth Dinesig:** Datganodd y Maer y byddai'r Gwasanaeth Dinesig yn yr Eglwyswen, Dinbych, Dydd Sul Mehefin 22ain 2014 am 3.30 o'r gloch y prynhawn.

12. **Y Fendith:** I ddod â'r gweithgareddau i ben, traddodwyd y Weddi derfynol a'r Fendith gan Gaplan y Maer, y Parchedig Jonathan Smith.